

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Abigail Davies ('Pili Pala Childminding')

Cefnogi cynnydd drwy ymarfer a arweinir gan arsylwadau

## Cefndir

Mae Pili Pala Childminding yn lleoliad gofal plant yn y cartref sy'n cael ei redeg gan Abigail Davies, sydd wedi'i chofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru ers mis Ionawr 2023.

Mae'n gofalu am nifer bach o blant, sy'n golygu y gall fabwysiadu dull personol iawn sy'n cefnogi cam datblygiad pob plentyn.

## Beth mae'n ei wneud yn wahanol?

Mae Abigail yn defnyddio arsylwadau manwl sy'n gysylltiedig â llwybrau datblygiadol Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar Llywodraeth Cymru i olrhain datblygiad pob plentyn a nodi ei gamau nesaf.

Mae'n rhannu'r arsylwadau hyn a'r camau nesaf â'r rhieni, sy'n eu helpu i ddeall sut mae eu plentyn yn datblygu a sut y gallant gefnogi hyn gartref. Mae hyn yn cryfhau cysondeb rhwng y cartref a'r lleoliad.

Mae hefyd yn defnyddio'r arsylwadau i gynllunio gweithgareddau wedi'u teilwra sy'n ymateb i ddiddordebau a chamau datblygiad y plant.

Er enghraifft, pan nododd arsylwadau fod plentyn yn chwarae'n fagwrus â doliau, yn ymddwyn mewn ffordd sgematig (lle mae plant yn gwneud un peth sawl tro i archwilio sut mae pethau'n gweithio) ac yn defnyddio iaith a oedd yn dod i'r amlwg, cynlluniodd Abigail weithgareddau i gefnogi hyn. Cyflwynodd adnoddau penagored ychwanegol, gan gynnwys cynwysyddion â chaeadau a gweithgareddau postio, i annog archwilio pellach.

## Impact ...

- Mae'r plant yn gwneud cynnydd datblygiadol cyson, ac mae asesiadau a arweinir gan arsylwadau yn helpu i nodi anghenion yn gynnar a darparu cymorth wedi'i dargedu
- Mae sgiliau cyfathrebu'r plant yn datblygu â hyder cynyddol, wedi'u cefnogi gan weithgareddau sy'n cyd-fynd â'u cam datblygu
- Mae'r plant yn chwarae am gyfnodau hirach ac yn bwrpasol, gyda'r plant yn dangos sgiliau canolbwyntio, dychymyg a sgiliau motor manwl gwell drwy weithgareddau wedi'u teilwra
- Mae gan y rhieni ddealltwriaeth gliriach o ddatblygiad eu plentyn a sut i gefnogi dysgu gartref

> *Mae gwylio plant yn magu hyder ac yn gwella eu sgiliau cyfathrebu ac annibyniaeth yn dangos i mi pa mor effeithiol y gall ymarfer ymatebol, dan arweiniad y plentyn fod.*